OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1806

# Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005

## RHAN 6

## SYMUD GWASTRAFF PERYGLUS

*Codau traddodi*

### Safon codio

**33.**—(1) Dyletswydd yr Asiantaeth o dro i dro yw dynodi safon, ac ar bob adeg gynnal mewn grym ddynodiad ar safon, (y cyfeirir ati yn y Rheoliadau hyn fel "safon codio"), sy'n darparu ar gyfer cyfansoddiad codau traddodi at ddibenion y Rhan hon.

(2) Rhaid i'r safon codio alluogi pob llwyth o wastraff peryglus gael cod traddodi unigryw.

(3) Rhaid i'r safon ddarparu ar gyfer codau gwahanol i nodiadau traddodi a gwblhawyd mewn perthynas â gwastraff peryglus a symudwyd drwy biblinell yn unol â rheoliad 41, pan fo pibellau yn para am fwy na chwarter.

(4) Rhaid i'r safon ddarparu ar gyfer codau traddodi gael eu ffurfio o lythrennau, Rhif au neu symbolau, neu unrhyw gyfuniad o lythrennau, Rhif au a symbolau.

### Codau traddodi

**34.**—(1) Dyletswydd—

(a) y cynhyrchydd, o ran—

(i) llwyth o wastraff peryglus sydd i'w symud o fangre (heblaw llong) lle mae'r gwastraff yn cael ei gynhyrchu;

(ii) gwastraff peryglus sydd i'w symud drwy biblinell o fangre (heblaw llong) mewn achos y mae rheoliad 41 yn gymwys iddo; neu

(iii) gwastraff peryglus sydd i'w ddyddodi o fewn cwrtil y fangre lle'i cynhyrchwyd;

(b) meistr y llong, o ran unrhyw wastraff peryglus sy'n cael ei symud o long yn ardal harbwr (gan gynnwys gwastraff a ollyngwyd drwy ddamwain ar dir sy'n gyfagos â'r llong); ac

(c) y traddodwr, o ran unrhyw lwyth arall o wastraff peryglus,

yw rhoi i'r gwastraff peryglus god unigryw yn unol â'r safon codio sydd mewn grym ar y pryd.

(2) Y cod a roddir yn unol â pharagraff (1) fydd y cod traddodi gwastraff peryglus o dan sylw at ddibenion y Rheoliadau hyn.